Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymorth tai i bobl agored i niwed – Ymchwiliad Grant Cymorth Tai

## Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Mai 2025

Ym mis Mai 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei adroddiad ar gymorth tai i bobl agored i niwed.

Mae'r adroddiad yn nodi tri argymhelliad ac 11 o gasgliadau. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....................3**
**2. Ymateb i'r Argymhellion a'r Casgliadau....................4**

# 1. Cyflwyniad

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai am eu hymchwiliad i'r cymorth sydd ar gael i bobl agored i niwed ar gyfer cael llety ac am y cyfle i roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar.

Ers i mi fod yn y sesiwn tystiolaeth lafar ar 19 Mawrth a chyhoeddi adroddiad y Pwyllgor yn dilyn hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) (y Bil). Mae'r Bil, a gyflwynwyd ar 19 Mai, yn ymateb uniongyrchol i lawer o ganfyddiadau'r adroddiad. Mae'n rhoi pwyslais cryfach ar atal digartrefedd a dileu'r rhwystrau sydd yn y gorffennol wedi rhwystro pobl rhag cael cymorth. Mae'r Bil hefyd yn ehangu'r cyfrifoldeb am adnabod ac atal digartrefedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru i helpu darpar ymgeisydd digartref i gael cymorth tai a digartrefedd yn gynnar yn y broses. Mae'r newid arwyddocaol hwn yn y ffordd y caiff gwaith i atal digartrefedd ei reoli yng Nghymru yn cael ei gydnabod yn adroddiad y Pwyllgor. Mae'n pwysleisio nad cyfrifoldeb yr awdurdod tai lleol yn unig yw digartrefedd mwyach.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y Bil yn arwain at newid ystyrlon i bobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod Ailgartrefu Cyflym yn parhau'n rhan annatod o waith awdurdodau lleol a phartneriaid a bod y Grant Cymorth Tai (HSG) yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau cymorth tai hanfodol sydd eu hangen i helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol o ran atal a lliniaru digartrefedd.

Diolchaf i'r Pwyllgor am eu hadroddiad a dwi'n croesawu'r trafod eang a fu wrth lunio canfyddiadau'r adroddiad. Dwi'n ymateb i argymhellion a chasgliadau'r Adroddiad isod.

# 2. Ymateb i'r Argymhellion a'r Casgliadau

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod ei gwaith i weithredu ailgartrefu cyflym yn cael ei arwain yn fwy gan dystiolaeth. Dylai hyn gynnwys adolygu a gwella'r sail dystiolaeth ar fodelau arfer da, nodi a llenwi bylchau yn ôl yr angen a defnyddio'r sail dystiolaeth well hon i osod disgwyliadau clir ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol ar gyfer modelau priodol o lety a chymorth. Dylid gosod amserlenni a cherrig milltir, wedi'u hategu gan gyllid, i lywio'r newid hwn

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae cylch gwaith Ailgartrefu Cyflym (RRH) yn darparu mwy na dim ond llety â chymorth a chymorth sy'n gysylltiedig â thai. Mae hefyd yn ymdrin â'r cyflenwad o dai anghenion cyffredinol, y bydd cyfran ohonynt yn cael eu defnyddio i ddiwallu anghenion aelwydydd digartref.

Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd (EHNAB) wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r ffactorau sy'n rhwystro rhoi Ailgartrefu Cyflym ar waith. Mae'n cynnwys astudiaeth fanwl o dri Awdurdod Lleol (ALl) i ystyried sut mae data a gwybodaeth o gynlluniau Ailgartrefu Cyflym a'r Asesiad o'r Farchnad Tai Leol (LHMA) yn llywio'r ffordd y darperir y cyflenwad tai a'r hyn sy'n rhwystr rhag datblygu tai priodol i ddiwallu anghenion lleol. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu hystyried gan yr EHNAB yn yr haf a chaiff uwchgynhadledd genedlaethol ei chynnal yn yr hydref i rannu tystiolaeth o'r astudiaeth fanwl â'r holl ALlau a rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo arfer da.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Telir am gost yr uwchgynhadledd genedlaethol o'r cyllidebau presennol.

## Argymhelliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod data cymorth tai yn ysgogi gwelliannau i wasanaethau. Dylai hyn gynnwys datblygu'r data am ganlyniadau i fod yn sylfaen dystiolaeth genedlaethol gadarn a hygyrch y gall awdurdodau lleol a darparwyr gyfeirio ati er mwyn gwerthuso eu gwasanaethau yn erbyn eraill a nodi arfer da.

Ymateb: Derbyn

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gydgynhyrchu a rhoi ar waith Fframwaith canlyniadau'r Grant Cymorth Tai newydd ym mis Ebrill 2023, i ddarparu offeryn i gasglu tystiolaeth am ganlyniadau unigolion sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau a ariennir gan yr HSG.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu crynodeb cenedlaethol o ddata canlyniadau'r HSG yn ddiweddarach yn 2025, yn seiliedig ar ddata 2024-25.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

## Argymhelliad 3

**Dylai Llywodraeth Cymru gymryd rôl fwy pendant mewn perthynas â chydweithio i sicrhau bod arfer da sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei efelychu ym mhobman y mae ei angen ledled Cymru. Dylai wneud hyn trwy sicrhau bod y strwythurau a'r cyllid grant cywir ar waith, gan gynnwys amodau grant lle bo angen.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Mae mynd i'r afael â digartrefedd ac atal y risg o ddigartrefedd yn dibynnu ar ymateb mwy nag un asiantaeth i ddarparu gwasanaethau cymorth cynhwysfawr a holistaidd. Yr egwyddor hon sydd wrth wraidd y Cynllun Gweithredu ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd (EHAP) sy'n cynnwys strategaethau Ailgartrefu Cyflym, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Bydd diwygio deddfwriaethol, fel a ddisgrifir isod, yn ei gryfhau.

Mae Canllawiau HSG, y mae'n rhaid i ALlau gydymffurfio â nhw fel rhan o delerau ac amodau'r grant, yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydweithio â phartneriaid allweddol. Gellir defnyddio cyllid HSG mewn ffordd hyblyg i gefnogi cydweithio â phartneriaid allweddol fel iechyd a gofal cymdeithasol, a ffynonellau cyllid grant perthnasol eraill fel y Grant Plant a Chymunedau a'r Gronfa Tai â Gofal. Nid yw'r HSG yn ariannu'r ddyletswydd statudol sydd ar ALlau i atal a lleddfu digartrefedd, nac yn ariannu dyletswyddau statudol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol. Yn lle hynny, mae'r gwasanaethau a ariennir gan HSG yn ategu, cryfhau a chefnogi gwasanaethau statudol.  Mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn derbyn cyllid penodol i gyflawni eu dyletswyddau statudol o ran tai, iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein diwygiadau deddfwriaethol, y mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) (y Bil) yn eu harwain, yn ceisio cryfhau'r fframwaith statudol ar gyfer cydweithio. Y darpariaethau perthnasol yn y Bil yw:

- Adran 21: Cyflwyno dyletswydd "gofyn a gweithredu" newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru. Pan fyddant yn credu y gallai rhywun fod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, rhaid iddynt:
    - Atgyfeirio'r unigolyn (gyda'i ganiatâd) at yr awdurdod tai lleol.
    - Rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael.
    - Ystyried camau eraill y gallant yn rhesymol eu cymryd i helpu'r person i gael neu gadw llety addas.
    - Ystyried sut y gall statws digartrefedd y person effeithio ar sut y byddant yn darparu eu gwasanaethau.
- Adran 24: Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu protocolau ar y cyd rhwng swyddogion yr awdurdod sy'n arfer ei swyddogaeth ynghylch y digartref a'r rhai sy'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer: pobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref, anghenion pobl sy'n gadael gofal o ran llety a chymorth, a phobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n gadael dalfa ieuenctid.
- Adran 25: Ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod ei hun ac awdurdodau cyhoeddus eraill, mudiadau gwirfoddol a phobl eraill i gyflawni'r amcanion canlynol:
    - atal digartrefedd;
    - bod llety addas ar gael i bobl sy'n ddigartref neu a all ddod yn ddigartref;
    - bod cymorth ar gael i bobl sy'n ddigartref neu a all gael eu hunain yn ddigartref;
    - bod achosion yn cael eu cydlynu'n effeithiol, sy'n golygu rheoli achosion pobl ddigartref neu bobl a all gael eu hunain yn ddigartref ac sydd o bosib angen cymorth ychwanegol a bod swyddogaethau digartrefedd yr awdurdod yn cael eu cyflawni'n effeithiol.
- Adran 25: Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu protocol sy'n ymdrin â phobl sydd, neu a allai gael eu hunain yn ddigartref, ac sydd hefyd ag angen cymorth sy'n ychwanegol at eu hangen am dai, gan gynnwys yn benodol cymorth neu wasanaethau sydd eu hangen oherwydd:
    - gadael carchar neu lety cadw ieuenctid;
    - gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron;
    - camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau eraill; neu
    - iechyd meddwl.
- Adran 32: Estyn y ddyletswydd bresennol i gydweithio yn adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("HWA 2014"), fel ei bod yn gymwys i grŵp estynedig o gyrff penodedig. Bydd awdurdod tai lleol yn gallu gofyn i'r cyrff hyn am eu cydweithrediad er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o ran y digartref. Bydd gofyn i'r cyrff hynny gydymffurfio hefyd â cheisiadau gan awdurdod tai lleol am wybodaeth sydd ei hangen arno i arfer ei swyddogaethau o ran y digartref.

Mae'r darpariaethau hyn yn arbennig o bwysig i gefnogi unigolion agored i niwed. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ALlau asesu a yw person yn agored i niwed ac ymateb i hynny mewn ffordd gydgysylltiedig.

Goblygiadau Ariannol: Mae unrhyw oblygiadau ariannol oherwydd y Bil yn cael eu hystyried fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'i gyhoeddi.

## Casgliad 1

**Dylai Llywodraeth Cymru fodelu maint yr angen am wasanaethau cymorth tai ar lefel genedlaethol a defnyddio'r data i ragweld y lefelau gwariant blynyddol gofynnol yn y Grant Cymorth Tai i ddiwallu'r angen hwnnw ar sail hirdymor.**

Ymateb:

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am flaenoriaethu, cynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymorth tai sy'n diwallu'r anghenion lleol orau. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiadau rheolaidd o'r galw yn y dyfodol am wasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai. Bydd hynny'n lliwio eu cynlluniau hirdymor ar gyfer y gwasanaethau a nodir yn Strategaethau eu Rhaglenni Cymorth Tai (HSP), gan gynnwys swyddogaethau digartrefedd statudol a ariennir trwy'r setliad refeniw llywodraeth leol a gwasanaethau ataliol anstatudol a ariennir drwy'r HSG. Bydd hyn yn ei dro yn dylanwadu ar y gwasanaethau a ariennir drwy'r HSG ac a ddisgrifir yng Nghynlluniau Cyflawni'r HSG a chynlluniau gwariant blynyddol.

Mae'r gwasanaethau a ariennir gan yr HSG yn ategu, cryfhau a chefnogi gwasanaethau statudol i sicrhau bod yr hyn a gynigir gan awdurdodau yn helpu pobl i gael y cartref iawn gyda'r cymorth iawn i lwyddo.

Mae'r broses o bennu cyllideb yr HSG ynghlwm wrth y broses o bennu cyllideb Llywodraeth Cymru, sy'n dibynnu ar Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU. Wrth bennu'r gyllideb, defnyddir gwybodaeth am chwyddiant cyflog ar sail y newidiadau blynyddol i'r Cyflog Byw Go Iawn a thystiolaeth gan y sector am y pwysau ar wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys data sydd ar gael am y galw a ragwelir yn y dyfodol a chymhlethdod anghenion pobl sy'n derbyn cymorth.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Casgliad 2

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwerthusiad annibynnol o effeithiolrwydd llety â chymorth ar raddfa fawr, gan ystyried safbwyntiau tenantiaid.

Ymateb:

Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu gwerthusiad o unedau llety â chymorth mawr. Cyfrifoldeb yr ALl yw penderfynu pa lety sy'n briodol ar gyfer unigolion a datblygu'r tai i ddiwallu anghenion a galw lleol yn unol â'r fframweithiau grant a safonau ansawdd.

Rydym yn cydnabod ac yn deall y pryderon ynghylch llety â chymorth ar raddfa fawr, ac nid dyma'r model diofyn yr ydym am ei weld ledled Cymru. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, oherwydd diffyg stoc dai, y bydd rhai ALlau yn gweld bod angen datblygu prosiectau llety a reolir ar raddfa fwy. Mae ALlau wedi datblygu nifer o gynlluniau o'r fath, ar sail angen eu cleientiaid am gymorth. Lle rydym wedi cefnogi'r cynlluniau hyn, rydym wedi gwneud hynny am eu bod yn rhoi'r lefel gywir o gefnogaeth, ac yn gweithio gydag ystod o bartneriaid o nifer o asiantaethau i sicrhau bod model o'r fath yn cael ei reoli'n ofalus. Bydd canfyddiadau astudiaeth fanwl Ailgartrefu Cyflym, y cyfeirir atynt yn yr ymateb i Argymhelliad 1, yn ein helpu i ddeall yn well eto pa mor effeithlon yw'r lleoliadau hyn.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Casgliad 3

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ei hymateb i argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu cyn gynted â phosibl.

Ymateb:

Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu yn cyflwyno adroddiad i'r EHNAB cyn gwyliau'r haf. Bydd yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn gynnar yn yr hydref. Byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor maes o law gyda'r diweddaraf ynghylch y camau nesaf ar ôl derbyn ac ystyried adroddiad y Grŵp.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Casgliad 4

**Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i ymgysylltu'n fwy ystyrlon â darparwyr gwasanaethau cymorth tai, er mwyn sicrhau ei bod yn ystyried gwahanol safbwyntiau ynghylch pwysau rheng flaen yn ogystal â gwybodaeth a dderbynnir gan awdurdodau lleol.**

Ymateb:

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Cymorth Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), y naill yn cynrychioli'r sector cymorth tai a'r digartref a'r llall cymdeithasau tai Cymru. Cynrychiolir y ddau fudiad ar yr EHNAB i rannu arbenigedd a chyngor y sector. Mae nifer o ddarparwyr gwasanaethau cymorth tai yn aelodau o EHNAB hefyd.

Fel mudiadau cynrychioliadol, mae Cymorth Cymru a CHC yn tynnu sylw at y pwysau sy'n wynebu'r gweithlu cymorth tai a'r digartref. Mae tystiolaeth o'u Hadroddiad Materion Tai yn helpu'r broses pennu'r gyllideb.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i Gasgliad 3, bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu (sy'n cynnwys ymhlith ei aelodau gynrychiolwyr Cymorth Cymru a darparwyr cymorth tai) yn cyflwyno argymhellion ar gyflogau, systemau cymorth i staff, cymwysterau a'r arferion recriwtio a chomisiynu gorau i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru yn hydref 2025.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Casgliad 5

**Dylai Llywodraeth Cymru edrych yn feirniadol ar sut mae awdurdodau lleol yn cyfrif costau gwasanaethau a dylai gymryd camau i sicrhau bod y costau hyn yn realistig.**

Ymateb:

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried manteision datblygu arferion gorau ar gyfer costio modelau ar gyfer darparu gwasanaethau allweddol, hynny i lywio a chefnogi ALlau i gaffael gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol. Bydd argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweithlu a ddisgwylir yn hydref 2025 yn bwydo'r broses hon.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Casgliad 6

**Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei data ar atal i sicrhau ei bod yn casglu digon o fanylion am y cydbwysedd rhwng gwaith atal ymhellach i fyny'r broses yn erbyn ymyriadau argyfwng.**

Ymateb:

Yr HSG yw ein prif grant atal digartrefedd. Mae data ar wariant a chanlyniadau'r HSG yn dweud wrthym sut mae ALlau yn defnyddio cyllideb yr HSG a'r mathau o angen a ddiwellir. Diolch i'r data hwn, mae Llywodraeth Cymru yn gwybod bod canran uchaf cynlluniau gwariant 2024-25 (a'r gwariant gwirioneddol yn 2023-24) ar wasanaethau 'cymorth lle bo angen' fel y'i gelwir. Nodir hyn yn Atodiad 2 o'r papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Mae'r gwasanaethau hyn gan fwyaf yn helpu pobl i gadw eu tenantiaethau a'u hatal rhag mynd yn ddigartref yn y lle cyntaf.

Cydnabyddir bod awdurdodau wedi gorfod cynnal nifer cynyddol o bobl mewn llety dros dro ers y pandemig ac wedi gorfod addasu adnoddau'r HSG yn unol â hynny. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi niweidio gwasanaethau ataliol ehangach yr HSG.

Ond rydym yn cydnabod bod angen symud adnoddau o fewn gwasanaethau digartrefedd yn fwy cyffredinol tuag at atal digartrefedd yn y lle cyntaf. Dyma yw prif ffocws polisi cyfredol a diwygiadau deddfwriaethol.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Casgliad 7

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i safoni a symleiddio eu prosesau casglu data eu hunain er mwyn sicrhau cysondeb a chymaroldeb a lleihau'r baich ar ddarparwyr gwasanaethau.**

Ymateb:

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn casglu data cryno ar ganlyniadau'r bobl sy'n cael eu helpu trwy'r HSG ac wedi safoni'r dull ar gyfer gwneud hyn. Efallai y bydd angen data ychwanegol ar awdurdodau lleol eu hunain oddi wrth ddarparwyr iddynt allu monitro contractau darparu gwasanaethau. Er ein bod yn gefnogol i'r egwyddor o symleiddio a safoni data, rydym yn cydnabod bod yn rhaid i hynny ddiwallu anghenion awdurdodau lleol hefyd iddynt allu rheoli eu gwasanaethau comisiwn yn effeithiol yn unol â'u harferion comisiynu.

Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r ALlau gynnal eu hadolygiad eu hunain o'r data ychwanegol a gesglir a'u gofynion o ran monitro contractau ar

lefel ranbarthol, gan ddefnyddio adnoddau cynllunio a grwpiau cydweithredol rhanbarthol i ddatblygu a chytuno ar drefn ranbarthol gyson a safonol o gasglu data a monitro contractau i leihau'r baich ar ddarparwyr gwasanaethau.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## Casgliad 8

**Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag awdurdodau lleol i ystyried ffyrdd o roi llais uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth wrth fonitro gwasanaethau, ac o bosibl dysgu o'r ffordd y mae gwasanaethau gofal yn cael eu rheoleiddio.**

Ymateb:

Mae rhoi'r grym i pobl sydd â phrofiad bywyd allu dylanwadu ar bolisi ar ddigartrefedd ac arferion, yn weithred allweddol yn ein Cynllun Gweithredu ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd. Mae'n cynnwys sicrhau bod gan bartneriaid cyflenwi drefniadau i gynnwys pobl â phrofiad bywyd wrth ddylunio, recriwtio, cyflwyno a gwerthuso gwasanaethau i'r digartref a chymorth tai.

Mae Canllawiau'r HSG yn cynnwys gofynion helaeth o ran clywed barn defnyddwyr gwasanaethau. Yn benodol, mae pennod 6 yn nodi bod disgwyl i ALlau a darparwyr gwasanaethau sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn ganolog i bob agwedd ar y Rhaglen Cymorth Tai, ac wrth ddatblygu, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau a ariennir drwy'r HSG.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyd-ariannu prosiect Cymorth Cymru Arbenigwyr trwy Brofiad, a sefydlwyd i roi grym i bobl sydd â phrofiad bywyd i leisio barn a dylanwadu ar bolisi ac arferion digartrefedd yng Nghymru. Wrth lunio'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, gwnaeth dros 350 o bobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd roi eu hadborth i'r cynigion.

Mae'r Bil yn cryfhau'r ymrwymiad hwn trwy:

- Adran 3: Diwygio'r ddyletswydd i asesu ymgeiswyr digartref yn adran 62 o HWA 2014 fel bod awdurdodau lleol:
    - Yn gwerthuso unrhyw gymorth sydd ei angen ar yr ymgeisydd neu aelodau'r aelwyd i oresgyn yr hyn sy'n eu rhwystro rhag byw'n annibynnol.
    - Nodi'r cymorth sydd ei angen i sicrhau bod yr awdurdod yn cyfathrebu â'r ymgeisydd mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn briodol i'w anghenion.
- Adran 4: Cyflwyno gofyniad ar awdurdod lleol i baratoi a chynnal Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety (PSAP) ar gyfer unrhyw ymgeisydd y mae gan yr awdurdod yn ei farn ddyletswydd digartrefedd drosto. Rhaid i'r Cynllun gofnodi materion (a'u hadolygu) megis:

  - asesiad o anghenion y person am dai a chymorth, ac anghenion unrhyw aelod o aelwyd yr ymgeisydd.
  - asesiad o'r cymorth sydd ei angen ar yr ymgeisydd i sicrhau y gellir cyfathrebu mewn ffordd hygyrch â'r ymgeisydd.
  - yr hyn y mae'r person eisiau ei gyflawni gyda chymorth yr awdurdod a chofnodi'r nodau hyn yn y cynllun.
- Adran 18: Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu a yw ymgeisydd yn agored i niwed mewn rhyw ffordd a allai effeithio ar ei allu i gael neu gadw llety.
- Adrannau 24-25: Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu protocolau a gwneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu i sicrhau bod pobl agored i niwed yn derbyn cymorth cydgysylltiedig.
- Adran 29: Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori ag unigolion sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref wrth:
  - ddatblygu neu ddiweddaru eu strategaethau digartrefedd lleol;
  - dylunio gwasanaethau cynghori sy'n diwallu anghenion grwpiau mewn perygl.
- Adran 29 Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau cyhoeddus neu leol, mudiadau gwirfoddol, pobl sydd neu sydd wedi bod yn ddigartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref yng Nghymru neu bobl eraill sydd yn eu barn nhw'n briodol cyn rhoi, adolygu neu ddileu canllawiau o dan HWA 2014.

Mae'r darpariaethau hyn, yn ogystal â sicrhau yr ymgynghorir â defnyddwyr gwasanaethau, yn eu cefnogi hefyd trwy ddulliau cydgysylltiedig, person-ganolog. Gan felly cryfhau'r hyn sydd eisoes yn ofyn yng Nghanllawiau'r HSG a chanllawiau'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## Casgliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu protocolau rhannu data rhwng asiantaethau priodol i sicrhau bod pawb sy'n cefnogi pobl drwy ddigartrefedd yn gallu cael mynediad at yr holl wybodaeth berthnasol.

Ymateb:

Mae telerau ac amodau grantiau'r HSG yn cynnwys y gofyn bod gan ALlau gytundebau rhannu data i'w cefnogi i rannu data â thimau mewnol eraill yr awdurdod lleol ac ag ALlau allanol a Llywodraeth Cymru neu eu hasiantau, hynny at ddibenion cynllunio, ymchwil a chasglu ystadegau.

Rydym yn cydnabod y gall rhannu data fod yn rhwystr i bartneriaid cyflenwi rhag cydweithio i gefnogi dull cydgysylltiedig o atal neu leddfu digartrefedd. Mae'r Bil yn cefnogi gwell cydlynu trwy:

- Adran 24: Gorfodi protocolau ar y cyd rhwng awdurdodau tai lleol a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer achosion sy'n ymwneud â: phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o fod yn ddigartref, anghenion llety a chymorth pobl sy'n gadael gofal, a phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n gadael sefydliad cadw ieuenctid.
- Adran 25: Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithredu a chydlynu achosion, yn enwedig ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth.
- Adrannau 32: Ehangu'r rhestr o gyrff penodedig sy'n dod o dan y ddyletswydd i gydweithredu yn adran 95 o HWA 2014 y mae gofyn iddynt gydweithredu a rhannu gwybodaeth i helpu i atal a lleddfu digartrefedd.

Cefnogir y darpariaethau hyn gan ganllawiau gweithredu a hyfforddiant i sicrhau bod protocolau rhannu data yn gadarn, yn gyfreithlon, ac yn hwyluso cymorth amserol, person-ganolog.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Casgliad 10

**Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu asesiad annibynnol o faint yr angen nas diwallwyd am wasanaethau Tai yn Gyntaf ledled Cymru, a gweithio gydag awdurdodau lleol i ddiwallu'r angen hwnnw'n raddol.**

Ymateb:

Mae'r mwyafrif o ALlau yng Nghymru yn darparu gwasanaethau Tai yn Gyntaf, gyda 22 o brosiectau Tai yn Gyntaf mewn 18 ALl. (Gweler Atodiad 3 o'r papur tystiolaeth).

Mae canllawiau Ailgartrefu Cyflym yn hyrwyddo rôl Tai yn Gyntaf o ran helpu pobl i gadw eu tenantiaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob ALl ystyried Tai yn Gyntaf fel rhan o'r pontio i Ailgartrefu Cyflym trwy gymryd camau a nodir yn eu cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym a'u Strategaethau HSP. Mae gofyn i awdurdodau lleol gynnal 'asesiad o angen' hefyd, i lywio'r cynlluniau hyn.

Mae swyddogion yn dal i helpu ALlau i ddatblygu prosiectau Tai yn Gyntaf newydd lle'u bod wedi'u cynnwys mewn cynlluniau Ailgartrefu Cyflym a gwella prosiectau i ateb y galw cynyddol. Byddwn yn parhau i annog ALlau, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a darparwyr trydydd sector i gyflwyno Tai yn Gyntaf

trwy rannu arfer da a'r cyfraddau trawiadol a welwyd hyd yma ar gyfer cadw tenantiaethau.

Goblygiadau Ariannol: Dim

## Casgliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr tai i ddatblygu modelau arfer da ar gyfer llety pobl ifanc gyda rhenti fforddiadwy.

Ymateb:

Yn 2019-20 lansiodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Arloesi Digartrefedd Pobl Ifanc i brofi trefniadau lletya arloesol a newydd ar gyfer pobl ifanc, gyda dros £3.3m wedi'i neilltuo iddi bob blwyddyn ers hynny. Mae prosiectau'r gronfa'n benodol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd gan gynnwys, ymhlith eraill, pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl ifanc anabl a'r rhai sydd wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae prosiectau'n cynnwys llety â chymorth, fflatiau hyfforddi, cymorth gyda thenantiaeth, cynllun llety a rennir, cynllun cymorth pontio, a chynllun tai â chymorth i bobl LHDTC+. Yn dilyn llwyddiant Tai yn Gyntaf yng Nghymru, mae pedwar prosiect Tai yn Gyntaf i Ieuenctid hefyd yn cael eu hariannu.

Mae'r prosiectau a ariennir wedi'u gwerthuso'n allanol fel y gallwn ddysgu ohonynt a nodi arfer da. Cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso ym mis Mai 2024 ac mae copïau wedi'u hanfon at randdeiliaid allweddol. Mae'r gynhadledd genedlaethol ar Ddigartrefedd Ieuenctid hefyd wedi rhoi cyfle i rannu modelau tai arloesol gyda rhanddeiliaid eraill.

Goblygiadau Ariannol: Dim